

(LIC22-21)

ADDYSG, CYMRU

**Gofyniad i Lunio Cynlluniau Pontio
a Chanllawiau 2022**

Gwnaed

23 Mai 2022

Yn dod i rym

1 Gorffennaf 2022

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 198(1) o Ddeddf Addysg 2002(1) i'w gwneud yn ofyniad i gyrff llywodraethu ysgolion uwchradd a gynhelir (neu ysgolion uwchradd a gynhelir o ddoeth penodedig) a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio, ar y cyd, gynlluniau i hwyluso'r broses bontio ar gyfer disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau gan gynnwys, yn rhinwedd adran 198(2) o Ddeddf Addysg 2002, at ddiben penderfynu a yw ysgol benodol i'w hystyried yn ysgol gynradd sy'n bwydo mewn perthynas ag ysgol uwchradd benodol. Wrth benderfynu'r cwestiwn hwnnw, rhaid rhoi sylw i'r Canllawiau.

Mae'r ddau bŵer hynny wedi eu harfer gan yr offeryn hwn.

(1) 2002 (p. 32) a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1158. Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Am y diffiniadau o "prescribed" a "regulations" gweler adran 212(1) o Ddeddf Addysg 2002.

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cymhwyso a statws

1.—(1) Enw'r offeryn hwn yw'r Gofyniad i Lunio Cynlluniau Pontio a Chanllawiau 2022.

(2) Daw'r offeryn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2022 ac yn unol â hynny mae'r Gofyniad a'r Canllawiau yn cael effaith ar y dyddiad hwnnw.

(3) Daw Rheoliadau Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022 hefyd i rym ar 1 Gorffennaf 2022 ac mae'n ofynnol i Gynlluniau Pontio fod yn eu lle o 1 Medi 2022.

(4) Y garfan gyntaf o ddisgyblion i drosglwyddo o dan y trefniadau hyn fydd y rhai hynny sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2023.

Dirymu

2. Mae'r offeryn hwn yn dirymu ac yn disodli offeryn Gofyniad am lunio Cynlluniau Pontio ac arweiniad 2006 (2006 Rhif 12).

Dehongli

3.—(1) Yn yr offeryn hwn—

“ystyr “blwyddyn 6” (“*year 6*”) yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 11 oed ynddi;

“ystyr “blwyddyn 7” (“*year 7*”) yw'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarth yn cyrraedd 12 oed ynddi;

ystyr “y cwricwlwm” (“*the curriculum*”) yw'r cwricwlwm a fabwysiedir o dan Ddeddf 2021;

ystyr “Cynllun Pontio” (“*Transition Plan*”) yw cynllun o'r math y cyfeirir ato yn adran 198(1) o Ddeddf 2002 a rheoliad 4(2) o'r Rheoliadau;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Addysg 2002;

ystyr “Deddf 2021” (“*the 2021 Act*”) yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i “dosbarth” (“*class*”) yr ystyr a roddir iddo yn adran 82(1) o Ddeddf 2021;

ystyr “y Gofyniad” (“*the Requirement*”) yw'r gofyniad a nodir yn rheoliad 5 i lunio, ar y cyd, Gynllun Pontio;

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Pontio o’r Ysgol Gynradd i’r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2022(1).

(2) Mae i eiriau ac ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn yr offeryn hwn sy’n cyfateb i eiriau ac ymadroddion Saesneg a ddefnyddir yn Neddf 2002 yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf honno ac eithrio i’r graddau yr ymddengys bwriad i’r gwrthwyneb.

RHAN 2

Ysgolion sy’n ddarostyngedig i’r Gofyniad

Cefndir

4. Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cyfyngu’r ysgolion cynradd a gynhelir sydd i’w hystyried yn ysgolion cynradd sy’n bwydo ysgol uwchradd at ddibenion adran 198 o Ddeddf 2002 i’r rhai hynny lle y mae symudiad sylweddol o ddisgyblion rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd ar ddiwedd blwyddyn 6.

Y Gofyniad

5. Mae’r Gofyniad i lunio, ar y cyd, Gynllun Pontio i fod yn gymwys i—

- (a) ysgolion uwchradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig pan fo ganddynt ysgolion cynradd sy’n bwydo fel y’u diffinnir isod yn y Canllawiau, a
- (b) ysgolion cynradd cymunedol, gwirfoddol a sefydledig sy’n bwydo.

RHAN 3

Canllawiau ar ddiffinio “Ysgol Gynradd sy’n Bwydo”

Cefndir

6.—(1) Nod Cynlluniau Pontio yw meithrin perthynas waith agos rhwng ysgol uwchradd a’r ysgolion cynradd sy’n ei bwydo. Mae’r berthynas hon wedi ei seilio ar ymrwymiad parhaus i gydweithio ar ddatblygu a chyflwyno’r cwricwlwm mewn modd sy’n cefnogi parhad a chynnydd mewn dysgu ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud o flwyddyn 6 i flwyddyn 7.

(2) Fodd bynnag, cydnabyddir bod gan bob ysgol gynradd yng Nghymru eisoes gysylltiadau â nifer o

(1) O.S. 2022/566 (Cy. 131).

ysgolion uwchradd o ganlyniad i ofynion sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwybodaeth am ddisgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd briodol wrth symud i flwyddyn 7.

(3) Mae Gweinidogion Cymru felly yn ystyried y dylid cyfyngu'r Gofyniad i lunio Cynlluniau Pontio i achosion pan fo perthynas sefydledig a pharhaus rhwng ysgol gynradd ac ysgol uwchradd benodol yn seiliedig ar y ffaith bod y rhan fwyaf o garfan blwyddyn 6 o'r ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd benodol honno.

(4) Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd Cynlluniau Pontio yn cael eu rhoi yn eu lle pan fo sail gadarn i ysgolion gydweithio a chymryd mesurau ymarferol i wella parhad wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Mae hefyd yn ysgafnhau'r baich ar ysgolion drwy sicrhau nad yw'n ofynnol i ysgol gynradd weithio gyda mwy nag un ysgol uwchradd wrth ddatblygu Cynllun Pontio.

(5) Dylid nodi mai dim ond at ddibenion adran 198 o Ddeddf 2002 y mae'r canllawiau hyn ar y diffiniad o ysgol gynradd sy'n bwydo ym mharagraff 7. Nid ydynt yn effeithio ar feini prawf derbyn cyfredol ar gyfer ysgolion uwchradd nac yn gysylltiedig â'r meini prawf hynny, ac nid ydynt yn pennu dalgylch ysgol uwchradd benodol.

Canllawiau

7.—(1) At ddibenion adran 198 o Ddeddf 2002, dim ond pan fo mwy na hanner carfan blwyddyn 6 wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf yr ystyrir ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol.

(2) Ceir eithriad ar gyfer ysgolion cynradd pan fo cyfanswm y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol yn hanner cant neu lai ar ddiwedd y flwyddyn ysgol.

Anghydfodau

8. Mae'r Rheoliadau yn darparu mai Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu unrhyw anghydfod o ran a yw ysgol yn ysgol gynradd sy'n bwydo ysgol uwchradd benodol. Bydd gweithdrefnau yn cael eu rhoi yn eu lle ar gyfer datrys anghydfodau o'r fath.

Canllawiau Pellach

9. Dyroddir canllawiau pellach ar arfer swyddogaethau o dan adran 198 o Ddeddf 2002 maes o law.

Jeremy Miles

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
23 Mai 2022